

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Chwefror 2019

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Gwawr Jones, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriadau -- Nick Corney, Neil Pringle, Siân Godbert

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Ragfyr 2018.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ar y 14eg Ionawr 2019 o ganlyniad nad oedd digon o aelodau 'n medru bod yn bresennol

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd SCHG Jonathan Thomas yn bresennol a chyfeiriodd y clercc at y sylwadau canlynol ganddo;

Ni fu digwyddiad o bwys yn y gymuned yn ddiweddar ond roedd cyflenwad sylweddol o betrol a disel wedi ei ddwyn o ffermydd yn ardal Pentrefoelas

[1.1] Astudiaeth Dichonoldeb Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod wedi cwrdd gyda Mr Vic Turner [Cyngor BS Conwy] i drafod yr adroddiad, ac esboniodd er bod nifer o argymhellion yn cynnwys arwyddion a.y.b. nid oedd yn debyg y bydd gwelliannau ar hyn o bryd. Esboniodd hefyd bod cyfarfod gyda'r AC Janet Finch Saunders yn cael ei drefnu. Yn y cyfamser y clercc i wneud ymholiadau gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn ag adeiladu pont droed

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd ymateb i geisiadau i logi'r cae fod y Cyngor yn lle cyntaf yn bwriadu cysylltu gyda'r busnesau lleol. Y clercc i baratoi llythyr erbyn y cyfarfod nesaf.

[1.3] Llifogydd Pentre' Du

Penderfynwyd trafod yr adroddiad gyda Siân Godbert yng nghyfarfod nesaf y Cyngor

[1.4] Reilffordd Dyffryn Conwy

Nodwyd ateb gan Ken Skates fod Trafnidiaeth I Gymru wedi cael trafferthion o ganlyniad tywydd mawr a.y.b. ond fod gwellianau ar y gweill i ddarparu gwasanaeth trenau o dri i bedwar y dydd a hefyd gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn ar ddydd Sul

[1.5] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst

Dywedodd Gwawr Jones fod y targed ariannol ar gyfer y gymuned wedi ei gyrraedd, a bod prysurdeb gyda threfniadau ar gyfer y cyngerdd yn Eglwys Santes Fair ar y 17eg Fawrth 2019.

Y brif Agenda

[1.6] Mr Geraint Edwards Pennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd Cyngor BS Conwy  
Croesawyd Mr Edwards i'r cyfarfod ac esboniodd ynglŷn â swyddogaeth yr adran sydd yn cynnwys Priffyrdd, Toiledau, Meysydd Parcio , Caeau Chwaraeon a.y.b. Eglurodd fod y Cyngor eto yn wynebu toriadau cyllideb ddifrifol a fyddai'n amharu ar y gwasanaeth.

[1.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ionawr 2019

[c] Presept Gan nodi'r arian wrth gefn penderfynwyd gosod presept o £3000,00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

Nodwyd yr adroddiad canlynol oddiwrth Archwiliwr Cyffredinol Cymru;

[a] Rheolaeth Ariannol a Goruchwyliaeth Cyngorau Tref a Chymuned 2016/17

[b] Trefniadau Archwiliad Mewnol Cyngorau Tref a Chymuned

[1.8] Materion Cynllunio

[a] Newid defnydd yn rhannol i ddarparu gwasanaeth tacluso cwn. Uned D Stablau'r Royal Oak.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[b] Gorchymun Gwarchod Coed Afon Llugwy a Fferm Royal Oak

[1.9] Sedd Wāg y Cyngor

Cyfeiriodd y clerch at gais gan Mr Dyfed Jones, Rhoslan, Pentre' Du i ymuno fel aelod o'r Cyngor. Penderfynwyd gwahodd Mr Jones yn aelod cyfethol o'r Cyngor.

[2] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr Gwydr

Nodwyd bod gwaith diogelu'r cronfeydd yn parhau yn llynnoedd Goddionduon, Tynymynydd Cyffty a Sarnau a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn haf 2019.

[2.1] Dwr Cymru

Cyfeiriodd y clerch at lythyr gan Dwr Cymru yn adrodd bod ymweliad addysgiadol wedi ei wneud i ysgolion Betws-y-Coed, Dolwyddelan a Chapel Garmon. Deallwyd i'r plant ddysgu ynglŷn chyflenwad dwr, cadwraeth a thrin dŵr gwastraff.

[2.2] Ms Heather Beale

Cyfeiriodd y clerch at gais gan Ms Heather Beale i gael bin ysbwriel yng nghwaelod y llwybr sydd yn arwain i fyny i Llŷn Elsie er mwyn annog pobl i'w ddefnyddio i gael gwared a sbwriel a baw cwn ac yn y blaen. Penderfynwyd i ddarparu bin, y clerch yn y cyfamser i wneud ymholiad gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r casgliad.

[2.3] Climber and Rambler

Y clerch i anfon at y Parc Cenedlaethol yn gofyn iddynt wneud ymweliad pellach i gael golwg ar y siop wāg

[2.4] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Mynegwyd pryder fod y golofn wedi bod yn ddi olau ers Mis Tachwedd 2017. Y cler c i wneud ymholiadau gyda chynrychiolydd yr ardal y Cyng Wyn Ellis Jones i geisio amserlen ar gyfer ei atgyweirio, copi hefyd i swyddogion APCE Jonathan Cawley ac Edward Jones

[2] Nodwyd y wybodaeth ganlyno!

[a] Beics Betws- Busnes Llogi Beics

[b] Llythyr Siân Williams Gwasanaethau Democraidd Cyngor BS Conwy

[c] Ymgynghoriad Is -Ddeddfau Draenio Tir

[d] Gorsaf Dan Betws-y-Coed, Trafferthion Cyflogaeth.

Cadeirydd \_\_\_\_\_